

# Diwygio Caffael – Manteision i Awdurdodau Contractio



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Bydd diwygio caffael yn dod â'r rheolau caffael presennol at ei gilydd i greu un drefn caffael gyhoeddus, gan symleiddio'r system, agor caffael cyhoeddus i newydd-ddyfodiaid ac ymgorffori tryloywder.

Ochr yn ochr â'r Bil Caffael (DU), bydd y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio Cymru gynnal caffael cyhoeddus gymdeithasol gyfrifol i gyflawni canlyniadau llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio ystyried Datganiad Polisi Caffael Cymru ac alinio gweithgarwch masnachol yn well ag amcanion llesiant. Mae hyn yn golygu y dylai caffael ddod yn swyddogaeth fwy strategol o fewn sefydliadau a chyflawni uchelgeisiau polisi cenedlaethol a lleol.



Bydd y ddeddfwriaeth yn darparu parhad, cysondeb a chydlyniaeth i awdurdodau a busnesau contractio yng Nghymru sy'n cynnal busnes trawsffiniol â Lloegr.



Bydd yr hyblygrwydd cynyddol yn cynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer dulliau caffael arloesol gan awdurdodau contractio, ac arloesi gan gyflenwyr yn eu ceisiadau.



Bydd dyfarnu contractau ar sail y 'tendr mwyaf manteisiol' yn annog awdurdodau contractio i roi mwy o sylw i ganlyniadau llesiant.



Bydd fframwaith gwaharddiadau newydd yn cael ei weithredu er mwyn ei gwneud yn haws i awdurdodau contractio eithrio cyflenwyr sydd wedi tanberfformio ar gontractau eraill, gyda 'cofrestr waharddiadau' yn rhestru'r cwmnïau y dylid eu heithrio.



Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn gofyn am fwy o sylw i wella'r modd y rheolir contractau, yn enwedig contractau gwasanaethau adeiladu a chontractau allanol mawr. Dylai hyn sicrhau bod arferion moesegol yn cael eu gorfodi, a manteision ehangach yn cael eu gwireddu.



Bydd ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol yn cyfrannu at y nod Sero Net ac yn lleihau gwastraff a chost yn sylweddol trwy ailddefnyddio, ail-brynu, lleihau'r defnydd o safleoedd tirlenwi a lleihau cludiant.



Bydd mwy o gyfleoedd i gyflenwyr lleol o fudd i fusnesau ac unigolion, a fydd yn ei dro yn gwella lles eich ardal.



Bydd mwy o dryloywder, adroddiadau blynyddol a phiblinellau caffael cyhoeddedig yn rhoi data i awdurdodau contractio i gydweithredu'n well a sicrhau gwerth am arian.

